

Hysbysiad Preifatrwydd – Contractau caffael

Gwybodaeth am y polisi preifatrwydd mewn perthynas â chontractau caffael, pam fod angen y data arnom ni, yr hyn yr ydym ni'n ei wneud â'r data a'ch hawliau.

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yw 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

Pa wybodaeth sydd gennym ni

Gall yr wybodaeth bersonol sydd gennym ni amdanoch chi gynnwys:

- enw
- cyfeiriad e-bost
- CV (gan gynnwys cymwysterau, sgiliau/arbenigedd, hanes cyflogaeth, rôl cwmni)
- lleoliad
- gradd/teitl swydd

O ble'r ydym ni'n cael yr wybodaeth hon

Mae'r ASB yn cael yr wybodaeth hon gan eich cyflogwr.

Pam fod angen yr wybodaeth hon arnom ni?

Mae angen i ni gasglu'r wybodaeth hon at ddiben drafftio, cytuno, cyfnewid a chyhoeddi contract gyda'ch cyflogwr am gyflenwi ein gofynion ar gyfer nwyddau a gwasanaethau. Gwnawn hyn yn unol â'n rhwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny ac mae angen hynny er mwyn cyflawni tasg wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd ynom ni neu er budd y cyhoedd. Ni fyddwn ni'n casglu unrhyw ddata personol gennych chi nad ydym ni ei angen.

Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth?

Dim ond am y cyfnod sydd ei angen i gyflawni'r swyddogaethau hyn rydym ni'n cadw gwybodaeth bersonol, ac yn unol â'n polisi cadw. Mae hyn yn golygu y byddwn ni'n cadw'r wybodaeth am 6 mlynedd wedi iddi ddod i law.

Mae'r holl ddata personol rydym ni'n ei brosesu yn byw ar weinyddion o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae ein gwasanaethau cwmwl wedi'u caffael drwy Gytundebau Fframwaith y Llywodraeth a'u hasesu yn erbyn egwyddorion cwmwl y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Nid oes gan drydydd partïon fynediad at eich data personol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Bydd yr ASB weithiau'n rhannu data gydag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus a sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau swyddogol, neu pan fydd er budd y cyhoedd. At ddibenion ymrwymiad tryloywder y Llywodraeth, efallai y bydd gofyn i ni gyhoeddi data (yn amodol ar olygiadau (redactions) y gofynnwyd amdanynt dan eithriadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth).

Eich hawliau

Mae gennych chi'r hawl i weld yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost isod. Os ydych chi ar unrhyw adeg o'r farn bod yr wybodaeth rydym ni'n ei phrosesu amdanoch chi yn anghywir, gallwch chi wneud cais i'w chywiro. Os hoffech chi wneud cwyn am y ffordd rydym ni wedi trin eich data personol, gallwch chi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych chi'n fodlon â'n hymateb neu os ydych chi o'r farn nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, fe allwch chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).